



## Mill Common Restoration Project Update - December 2024

Monmouthshire County Council is delighted to share the results of the recent public consultation for the Mill Common Project and give a quick update on the project. The project, supported by The Woodland Investment Grant (TWIG) and the National Heritage Lottery Fund, aims to rejuvenate Mill Common, a cherished woodland in the heart of Magor and Undy, enhancing its ecological health, accessibility, and community value.

To ensure the project aligns with the needs and expectations of the local community, we conducted a public consultation in October through an online survey and an in-person session at Undy Memorial Hall. We aimed to understand how people use Mill Common, their concerns about its current state, and whether there was support for the proposed restoration efforts.

We'd like to thank everyone who took time to attend our in-person meeting and contributed online, all your feedback will be considered throughout the project and ensure we're able to make the project a success.

### **Consultation Results:**

Over two-thirds of respondents strongly supported the project proposals (Figure 1), and it was great to see so much interest in Mill Common.

There was clearly a strong desire to see Mill Common restored to a better condition, particularly the need for better paths and maintenance in muddy and overgrown areas. Resurfacing pathways and steps are a big part of the project as we will ensure they are accessible and safe for all users, including those with mobility issues.

Ongoing maintenance was a concern that was raised during the consultation process, there is funding beyond the life of this project to carry out maintenance to ensure the pathways aren't allowed to deteriorate as they have in the past.

We were pleased so many of you are supportive of the plans to address ash dieback in the woods, it's likely to cause some disruption while felling is undertaken. However, it's vital for the long-term safety, health of the woodland and provides an




Figure 1 Support for Mill Common Restoration Proposals (%)

opportunity for us to increase tree diversity and protect the veteran trees.

We will ensure that disruption to residents and to existing wildlife is minimised as much as possible during the tree work, our focus is to enhance the natural beauty of Mill Common while preserving and improving habitats for local wildlife.

Many respondents highlighted the importance of allowing dogs to roam off-lead, we will not be changing dog restrictions on Mill Common.

There was strong interest in community volunteering opportunities, and we will be developing a range of volunteering opportunities and training in green skills, woodland management, and habitat improvement to engage the community in the restoration efforts over the next 18 months.

If you'd like to register your interest in volunteering, you can do so at:

<https://www.monlife.co.uk/outdoor/green-infrastructure/mill-common-restoration-project/>

#### Next Steps:

The restoration project will commence with tree work starting in January, residents affected by the work will be notified prior to any work commencing.

Monmouthshire County Council will provide further updates as the project progresses, including about community involvement and volunteering which will start after the tree work is complete.

**For more information about the Mill Common Restoration Project and how to get involved, please visit our website or contact us at:**  
**localnature@monmouthshire.gov.uk**



## Diweddariad Prosiect Adfer Comin y Felin - Rhagfyr 2024

Mae Cyngor Sir Fynwy yn falch iawn o rannu canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar gyfer Prosiect Comin y Felin, a rhoi diweddariad cyflym i chi ar y prosiect. Nod y prosiect, a gefnogir gan y Grant Buddsoddi mewn Coetir (sef y TWIG) a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, yw adfywio Comin y Felin, coetir annwyl yng nghanol Magwyr a Gwndy, gan wella ei iechyd ecolegol, hygyrchedd a gwerth cymunedol.

Er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd ag anghenion a disgwyliadau'r gymuned leol, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref drwy arolwg ar-lein a sesiwn bersonol yn Neuadd Goffa Gwndy. Ein nod oedd deall sut mae pobl yn defnyddio Comin y Felin, eu pryderon am ei gyflwr presennol, ac a oedd cefnogaeth i'r ymdrechion adfer arfaethedig.

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd amser i ddod i'n cyfarfod personol ac a gyfrannodd ar-lein, bydd eich holl adborth yn cael ei ystyried drwy gydol y prosiect ac yn sicrhau ein bod yn gallu gwneud y prosiect yn llwyddiant.

### Canlyniadau'r Ymgynghori

Roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cefnogi cynigion y prosiect yn gryf (Figure 2), ac roedd yn wych gweld cymaint o ddiddordeb yng Nghomin y Felin.

Yn amlwg, roedd awydd cryf i weld Comin y Felin yn cael ei adfer i gyflwr gwell, yn enwedig yr angen am lwybrau a gwaith cynnal a chadw gwell mewn ardaloedd mwdlyd a llawn gordyfiant. Mae ail-wynebu llwybrau a stepiau yn rhan fawr o'r prosiect, gan y byddwn yn sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn ddiogel i bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau symudedd.

Roedd gwaith cynnal a chadw parhaus yn bryder a godwyd yn ystod y broses ymgynghori, mae yna gyllid y tu hwnt i oes y prosiect hwn i gynnal gwaith cynnal a chadw er mwyn sicrhau na chaniateir i'r llwybrau ddirywio fel y maent wedi yn y gorffennol.

Roeddem yn falch bod cymaint ohonoch yn cefnogi'r cynlluniau i fynd i'r afael â'r Clefyd Coed Ynn yn y goedwig, mae'n debygol o achosi rhywfaint o aflonyddwch wrth i'r




Figure 2 Cefnogaeth i Gynigion Adfer Comin Y Felin (%)

gwaith cwmpo coed gael ei wneud. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ar gyfer diogelwch ac iechyd hirdymor y coetir ac mae'n rhoi cyfle i ni gynyddu amrywiaeth coed a diogelu'r coed hynafol.

Byddwn yn sicrhau bod tarfu ar drigolion ac i fywyd gwyllt presennol yn cael ei leihau gymaint â phosibl yn ystod y gwaith coed, ein ffocws yw gwella harddwch naturiol Comin y Felin gan hefyd warchod a gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt lleol.

Amlygodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd caniatáu i gŵn grwydro oddi ar dennyn, ni fyddwn yn newid cyfyngiadau cŵn ar Gomin y Felin.

Roedd diddordeb mawr mewn cyfleoedd gwirfoddoli cymunedol, a byddwn yn datblygu amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddiant mewn sgiliau gwyrdd, rheoli coetiroedd a gwella cynefinoedd i ymgysylltu â'r gymuned yn yr ymdrechion adfer dros y 18 mis nesaf.

Os hoffech gofrestru eich diddordeb mewn gwirfoddoli, gallwch wneud hynny yma: <https://www.monlife.co.uk/cy/outdoor/green-infrastructure/mill-common-restoration-project/>

#### Y Camau Nesaf:

Bydd y prosiect adfer yn dechrau gyda gwaith coed, yn dechrau ym mis Ionawr, bydd trigolion yr effeithir arnynt gan y gwaith yn cael eu hysbysu cyn i'r gwaith ddechrau.

Bydd Cyngor Sir Fynwy yn darparu diweddariadau pellach wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, gan gynnwys ymwneud â'r gymuned a gwirfoddoli, a fydd yn dechrau ar ôl i'r gwaith coed gael ei gwblhau.

**I gael rhagor o wybodaeth am Brosiect Adfer Comin y Felin a sut i gymryd rhan, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni dros e-bost:**

[localnature@monmouthshire.gov.uk](mailto:localnature@monmouthshire.gov.uk)